

**Cyngor Cymuned Llanpumsaint**  
**Nodiadau Cyfarfod: 16.05.2017**  
**Neuadd Goffa 8.00 y.h**

**Presennol: Y Cyngorwyr ; Arwel Nicholas, Danny Davies, Dylan Jones, Pamela Jones, Cyngorydd Sir, Irfon Jones**  
**Ymddiheuriadau: Mike Poston**

<b>Rhif Agenda</b>	<b>Nodiadau/ Penderfyniadau</b>	<b>I'w weithredu gan</b>
Cadeirydd	Cyngorydd Pamela Jones yn diolch I'r Cyngor am ei hethol yn Gadeirydd; yn llongyfarch Irfon Jones am ddal ei sedd ar Gyngor y Sir, a Wyn Thomas am gael ei ethol I Orsedd yr Eisteddfod.	
Datgan Buddiannau	Neb	
Cofnodion	Cafwyd yn gywir gan <b>DD &amp; AN</b>	
Materion yn Codi	<p><b>J McEvoy</b> – wedi cyfarfod gyda <b>AN</b> a'r Clerc a phenderfynwyd I osod cyffordd ac nid cylchfan ar waelod Rhiw Cŵpers, gosod Monitor Cyflymder Trafnidiaeth gerllaw Pant Teg, a llinellau gwynion ar yr heol ar sgŵar Nebo fel cymorth I yrrwyr I weld y tro. Clerc yn son bod yr Adran Priffyrdd wedi dweud eu bod yn bwriadu gosod wyneb newydd ar y darn hynny o heol rhywbryd yn ystod yr haf.</p> <p><b>Band Eang</b> – <b>DD</b> wedi bod yn siarad gyda'r Contractwyr sydd yn gweithio ar y gwifrau a dywedwyd fod cwblhau'r gwaith yn dod yn nes, ond dim llawer! Clerc yn adrodd am yr wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Carolyn Smethurst ac eraill oedd yn methu cael ateb penodol oddi wrth BT ynglyn a pha bryd byddai Band Eang ar gael yn Llanpumsaint.</p> <p><b>Cyfethol Cyngorwyr</b> – Clerc yn esbonio'r drefn fod yn rhaid hysbysebu am ymgeiswyr ac y byddai'r Cyngor yn dewis Cyngorwyr yng nghyfarfod Mis Mehefin. Clerc I osod hysbysebion ar yr hysbysfwrdd ac yn y ddau Blwch BT.</p> <p><b>Hedydd Rees</b> – wedi dweud nad ydi am wneud y gwaith o baentio'r Blychau BT. Clerc yn cynnig gwneud hynny yn ystod yr haf.</p>	
Gohebiaeth	<p><b>Carolyn Smethurst</b> – yn diolch am yr arwyddion o werthfawrogiad am ei gwasaneth I Gyngor y Gymuned.</p> <p><b>Clarke Telecom</b> – am godi mast 4G ar dir Llwynycelyn, tu ôl I'r Gwaith Trin Carthion; Cyngorwyr o blaid hynny</p> <p><b>Cais am Wybodaeth</b> – Cyngor Sir wedi gofyn am nifer Datgan Buddiannau yn ystod 2016, Clerc I ddarparu'r wybodaeth.</p> <p><b>Jeremy Clulow</b> – Clerc yn esbonio nad oedd wedi gallu gosod y Cofnodion ar y Dudalen We oherwydd angen diweddarau'r Dudalen; Jeremy Clulow wedi gwneud y gwaith</p>	

	bellach a'r Clerc wedi ychwanegu'r Cofnodion.	
Cynllunio	Dim	
Materion Ariannol	<b>Trywydd</b> ; £75 – Cytuno <b>AN &amp; DJ</b> <b>Cyflog Clerc</b> , £130.60 – Cytuno <b>AN &amp; DJ</b> <b>Llogi Ystafell</b> ; £50,00 – Cytuno <b>DD &amp; DJ</b> <b>Arolwg</b> , £186 – Cytuno <b>AN &amp; DD</b>	
UFA	<b>AN</b> – Japanese Knotweed gerllaw Maesyffynnon a Chalcut <b>IJ</b> – Dim <b>DJ</b> – Dim <b>DD</b> – Dim <b>PJ</b> – Diffyg Cofnodion ar y We; heol yn anwastad rhwng yr hen swyddfa bost a Gladstone Hall	
Cyfarfod yn gorffen	9.15yh	

Cafwyd yn gywir : .....	Cafwyd yn gywir : .....
(Cadeirydd)	(Ysgrifennydd)
Dyddiad : .....	Dyddiad: .....